Grŵp Trawsbleidiol ar Ynni Cynaliadwy
Cross Party Group on Sustainable Energy

Mewn partneriaeth â | In partnership with

FW | FRESHWATER ARUP

# Cofnodion

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ynni Cynaliadwy**

**Cyflwyniadau gan**

**Richard Murphy, Green New Deal Group**

**Paul Allen, Canolfan y Dechnoleg Amgen**

***Dydd Mawrth 11 Chwefror 2020 am 12.00pm***

***Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead***

# Yn bresennol

## Aelodau Cynulliad

Llyr Gruffydd, AC

Siân Gwenllian AC

## Aelodau'r Diwydiant

Alexander Phillips

Jeremy Smith

Angharad Davies

Lia Murphy

Ben Coates

Ben Lewis

Dr Carla De Laurentis

Carolyn Pugsley

David Clubb

Duncan Fisher

Lucy Hoggins

Michael Anderson

Nigel Pugh

Paul Allen

Rhys Wyn Jones

Dr Richard Hall

Gregory Vaughan Morris
Ioan Bellin
Simon John
Simon Morgan
Sion Trewyn
Sioned James
Rob James
Sara Powell-Davies
Tony Cooke
Will Ryan
Yasmin Akbari

## Croeso: Llyr Gruffydd

- Diolch i bawb am ddod i'r cyfarfod hwn ac edrychwn ymlaen at glywed gan y cyfranwyr am y Fargen Newydd Werdd.

## Cyflwyniadau: Richard Murphy, Green New Deal Group

Estynnodd Richard Murphy ei ymddiheuriadau am beidio â bod yn y digwyddiad yn bersonol a chyflwyno ei gyflwyniad drwy alwad fideo. Yn ei gyflwyniad rhoddodd esboniad ar y Fargen Newydd Werdd, sut y gallai weithio, a sut y gellid ei hariannu.

## Cyflwyniadau: Paul Allen, Canolfan y Dechnoleg Amgen

Gwnaeth Paul Allen gyflwyniad ar beth yw ynni di-garbon a sut mae'n helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ac anogodd eraill i wneud yr un peth.

## Cwestiynau ac atebion

**Cwestiwn:** *Gregory Vaughan Morris, ARUP* – mae'r rhan fwyaf o'r hyn a ddywedoch yn cyd-fynd â'r hyn rwy'n ei feddwl. Pam na all sefydliadau fel Cymdeithas Adeiladu'r Principality greu ISAs gwyrdd? Mae llawer o'r fargen yn seiliedig ar gostau lle nad oes ffordd hawdd o adennill y costau. Er enghraifft, os bydd rhywun yn buddsoddi £40,000 i wneud ei gartref yn effeithlon o ran ynni, sut mae hynny'n gweithio o ran pwy sy'n cael ei dalu yn ôl?

**Ymateb (RM)** Yn gyntaf, bydd cymorthdaliadau'n elfen bwysig ohono. Nid wyf yn credu y bydd pob tŷ yn dod yn effeithlon o ran ynni heb ryw fath o gymhorthdal gan y Llywodraeth, oherwydd nid yw'n debygol y bydd modd newid pob boeler am un newydd heb hynny yn fy marn i. Mae'n rhaid i ni fod yn realistig ac mae'n rhaid cael rhyw fath o asesiad o aelwydydd a'r hyn y gallant ei fforddio. Yn ail, mae angen rhyw fath o drefniant dealledig o roi benthyciad ar gyfer y tŷ, fel bod unrhyw gymhorthdal neu fenthyciad yn cael ei gysylltu â'r tŷ yn hytrach nag â phwy bynnag sy'n byw yn y tŷ ar y pryd, ac y byddai'n parhau gyda'r tŷ ar ôl iddo gael ei werthu, hyd yn oed. Bydd yn rhaid i ni werthuso sut mae enillion yn cael eu mesur ac mae'r model ar gyfer cydbwyso enillion yn hollbwysig. Mae fy amcangyfrif o £100

biliwn yn seiliedig ar y syniad y bydd naill ai swm sylweddol o'r costau ymlaen llaw, neu'r holl gostau ymlaen llaw, yn cael eu talu drwy fuddsoddiad gwyrdd gan ddefnyddio bondiau gyda dull ad-dalu fforddiadwy gyda deiliaid tai, i adlewyrchu eu hanghenion unigol. Yn ddelfrydol, byddai'r taliadau'n gwrthbwyso'r hyn sy'n cael ei arbed ac yn niwtral o ran cost yn ogystal ag o ran carbon.

**Cwestiwn:** *Gregory Vaughan Morris, ARUP* - Mae llawer o gyfleoedd y gall Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eu hystyried i helpu gyda hyn.
**Ymateb (LG)** Bu sôn ar un adeg am eithrio tai â lefel benodol o effeithlonrwydd o ran ynni rhag y dreth stamp pe baent yn mynd ar y farchnad. Pe na bai'r tŷ o safon ddigonol, byddai gan y perchnogion newydd ddwy flynedd i uwchraddio effeithlonrwydd y tŷ o ran ynni, a byddent yn cael ad-daliad. Mae offer ar gael nad yw'n cael eu defnyddio. Mae'n rhaid bod rheswm da pam na chafodd hyn ei gyflwyno, ond mae ffyrdd o gyflawni hyn.

**Cwestiwn:** *Paul Allen, Canolfan y Dechnoleg Amgen* - Yn eich dadansoddiad, a ydych chi'n gweld unrhyw rôl ar gyfer cyflwyno cytundeb ar gyfer esmwytho meintiol (QE) o ystyried yr hyn a ddigwyddodd i achub y banciau. A yw hynny'n rhan o'r ateb neu a yw hynny wedi'i ddiystyru erbyn hyn?

**Ymateb (RM)** Fe wnes i fathu'r enw esmwytho meintiol gwyrdd felly rwy'n gweld rôl iddo, ond hefyd i ryw raddau rwy'n credu'r gwrthwyneb. Yn ymarferol, nid wyf yn credu y bydd y llywodraeth o reidrwydd yn ail-brynu'r bondiau a roddir gan fanc buddsoddi cenedlaethol, a dyna, er enghraifft, y byddai esmwytho meintiol gwyrdd yn ei awgrymu. Os oes gennym argyfwng ariannol mawr tebyg i raddfa'r un yn 2008 byddai angen i ni roi esmwytho meintiol ar waith eto, ond os na fyddai'n digwydd ar y raddfa honno rwy'n credu y byddai'r farchnad ariannol eisiau prynu pob bond posibl y gallai'r llywodraeth ei roi i'r Fargen Newydd Werdd. Mae awydd enfawr am fodd diogel o gynilo ar hyn o bryd, a dyna mae diffygion y llywodraeth yn ei gynrychioli, maent yn storfeydd ar gyfer cynilion preifat. Yr hyn sy'n dda am y diffyg o ran y llywodraeth yw mai arian preifat sydd ar ben arall yr hafaliad. Ond, mae pobl yn hoffi gwybod bod eu harian yn ddiogel. Rydyn ni wedi cael un achos o bobl yn rhuthro i dynnu eu harian allan o fanc yn y wlad hon mewn 175 mlynedd. Y banc dan sylw oedd Northern Rock a'r hyn a wnaeth y llywodraeth i atal hynny oedd gwarantu'r adneuon mewn banciau hyd at £85,000. Rwy'n galw hyn yn esmwytho meintiol cudd, sy'n defnyddio pŵer gwarant y llywodraeth i ddarparu'r sicrwydd ar gyfer arbedion a fydd yn sail i'r Fargen Newydd Werdd. Mae angen i ni gydnabod bod gwarant gan y llywodraeth yn rhan o hyn, ond mae'n debyg na fydd yn rhaid eu defnyddio byth, oherwydd bod y warant ar waith. Ni fyddai unrhyw un yn gorfod tynnu ei arian yn sydyn yn achos benthyciad llywodraeth – nid oes angen hynny, oherwydd mae'r llywodraeth wedi rhoi sicrwydd bod modd ei dalu. Mae cost esmwytho meintiol cudd yn eithaf isel. Mae'r cymorthdaliadau go iawn i bensiynau ac ISAs ar hyn o bryd at ei gilydd yn costio £60 biliwn y flwyddyn ac mae'r Fargen Newydd Werdd yn mynd i gostio £100 biliwn y flwyddyn.

Gallem ailgyfeirio'r arian sy'n mynd i bensiynau tuag at fuddsoddiadau adeiladol. Mae arian pensiynau'n cael ei ddefnyddio'n bennaf i brynu tystysgrifau cyfranddaliadau, sydd heb unrhyw werth cynhenid, neu'n cael ei gadw mewn adneuon sy'n 50 y cant arian parod, sy'n gwneud dim lles i'r economi, a dyna beth mae ISAs yn ei wneud. Rydym yn cau cylch drwy ddefnyddio rheoleiddio gwell a gwneud defnydd gwell o warantau am gost economaidd

gymharol isel; bydd yr elfen llog yn uwch na'r hyn y mae'r llywodraeth yn ei dalu ar hyn o bryd wrth fenthyca. Ond mae gwneud hynny'n costio cyfanswm o ychydig dros £1 biliwn y flwyddyn, ac nid yw hyn yn llawer o gwbl i'r llywodraeth. Felly mae ganddo rôl, ond mae'n rhaid i ni fynd y tu hwnt i'r hyn sy'n gonfensiynol.

**Cwestiwn:** *Llyr Gruffydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru* – Dywedoch chi eich bod chi'n gweithio ar becyn cymorth ar gyfer cynghorau – a yw hynny'n rhywbeth y gellir ei ddisgwyl yn fuan?

**Ymateb (PA)** - Ar hyn o bryd, pennod ydyw o fewn yr adroddiad *Zero Carbon Britain's Rising with the Times Emergency Report*, ond dyma un o'r tasgau allweddol y bydd y Ganolfan (Hub) Dim Carbon yn edrych arnynt wrth i ni gael nifer gynyddol o ymholiadau amdano. Yr hyn rydym yn ei weld yw, os ydyn ni'n dod â chynghorau at ei gilydd ar gyfer cyfarfod y de-ddwyrain / de-orllewin, oes, mae yna ganlyniadau dysgu sylfaenol ar gyfer yr hyn rydym yn ei gynnig, ond mae cwrdd â chynghorau eraill a rhannu yn ganlyniad dysgu eilaidd pwysig iawn.

**Ymateb (LG)** Rydw i'n gwybod bod cynghorau yng Nghymru'n datblygu cynlluniau o ran argyfyngau hinsawdd, ac rwy'n credu fy mod i'n gywir mai anaml iawn y mae'r cynghorau hyn yn dod ynghyd i rannu arferion gorau, fodd bynnag nid rhywbeth i'w drafod heddiw yw hynny.

**Cwestiwn:** *Gregory Vaughan Morris – Pam na all Llywodraeth Cymru ddweud 'rydym yn mynd i ganolbwyntio ar y maes sy'n debygol o fod y mwyaf a'r hawsaf i lwyddo ynddo'n gyflym'?* Pe bai Llywodraeth Cymru yn dweud bod yn rhaid i bob tŷ newydd fod â manylebau penodol, er enghraifft ffenestri o faint cywir, byddai rhai cwynion ond byddai cynnydd. Dros amser, byddai gwelliant naturiol yn ansawdd tai ac arbedion effeithlonrwydd ynni, ac rwy'n ystyried hynny'n rhywbeth y gallai Llywodraeth Cymru ei gyflawni'n gyflym.

**Ymateb (PA**) Fy safbwynt i yw bod gennym gartrefi di-garbon ar y llyfrau statud yn y DU, ac rwy'n credu bod llawer o lobïo wedi bod gan lawer o'r gwneuthurwyr tai mawr sydd â llawer o ddylanwad ar y llywodraeth, ond nid wyf yn siŵr iawn beth yw'r sefyllfa yng Nghymru.

**Ymateb (LG)** Cafwyd ymgynghoriad ar reoliadau Rhan L a chafodd y safonau eu hadolygu bum neu chwe mlynedd yn ôl. Ymgynghorodd y llywodraeth ar welliant o 25 y cant neu 40 y cant ac yn y diwedd dewiswyd wyth y cant, a oedd eisoes wedi'i gyflawni. Ond, y tro hwn, dywedon nhw y bydden nhw'n fwy uchelgeisiol felly mae yna ymgynghoriad fel yr un sy'n cau ym mis Mawrth ac rwy'n credu bod y cynnig naill ai'n 37 y cant neu'n 57 y cant. Yr hyn sy'n well ganddyn nhw yw 37 y cant, ond mae'r safonau hynny i'w mabwysiadu yn y flwyddyn galendr hon, a'r uchelgais wedyn yw bod yn ddi-garbon yn 2025. Ond, wrth gwrs, yn y cyfamser, rydyn ni'n sicrhau bod effeithlonrwydd o ran ynni yn rhan ohono, a bydd angen i ni ei ôl-osod yn y blynyddoedd i ddod.

**Ymateb (PA**) Comisiynwyd Canolfan y Dechnoleg Amgen (CAT) i gynhyrchu rhaglen hyfforddiant clyweledol ar gyfer pob cynlluniwr yng Nghymru o'r enw Cynllunio ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd ('Planning for Climate Change'). Mae'n fater o sicrhau'r llythrennedd sylfaenol hwnnw ymhlith yr holl gynllunwyr ac o fewn yr hierarchaeth rhwydweithiau cynllunio yng Nghymru, a byddem yn fodlon iawn ail-wneud hynny ar gyfer yr argyfwng hinsawdd

presennol fel bod pawb sy'n gweithio ym maes yr hinsawdd a chynllunio, yn ogystal â gwybod pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa, yn deall hefyd bod cyfleoedd enfawr yn gysylltiedig â gwneud y dewisiadau cywir.

**Cwestiwn:** *Nigel Pugh, Coed Cadw* - Yng Nghymru, ar hyn o bryd mae awdurdodau lleol, yn enwedig awdurdodau cynllunio, yn rhoi caniatâd cynllunio dro ar ôl tro a fydd yn arwain at golli seilwaith gwyrdd. Yn amlwg mae'n adnodd hanfodol i gymunedau ac yn lleihau'r golled o ran bioamrywiaeth. Mae hyn yn digwydd ledled Cymru ac mae angen mynd i'r afael â'r arfer yn gyflym. Mae'n enghraifft o 'fusnes fel arfer'.Sut mae llwyddo i fynd tu hwnt i hyn?

**Ymateb (PA**) Rwy'n credu ei fod yn llai o fater 'busnes fel arfer' ond yn fwy o fater o 'fusnesau'n wynebu prinder arian cynghorau o ganlyniad i lymder'. Rwy'n credu ei fod yn ganlyniad i roi llawer o waith rheoli i isgontractwyr sydd, er enghraifft, yn arbed arian ar asesiad risg o goed drwy eu torri. Beth ydych chi'n teimlo yw'r ateb?

**Ymateb**: Nigel Pugh, Coed Cadw - Rhaid iddynt gydnabod 10 cyfarwyddeb Polisi Cynllunio Cymru, a'r holl ddeddfau a chyfarwyddebau sydd gennym ar waith ar hyn o bryd, a bod yn atebol am y penderfyniadau hynny.

**Ymateb:** David Clubb, Afallen: Gwelais gynnig diddorol ar-lein; er enghraifft, unwaith y bydd coeden yn cyrraedd pwynt aeddfedrwydd penodol, gellid cyflwyno dogfennau ar ei chyfer i'w gwneud yn ddinesydd cyfreithiol, fel sy'n digwydd gyda busnesau. Felly mae gan fusnesau sefyllfa gyfreithiol i bob pwrpas, yr un peth â ni fel bodau dynol, felly beth am roi hawl gyfreithiol i bob coeden sy'n hŷn na 10 oed i fywyd ac aer glân ac ati?

**Ymateb (PA**) Efallai mai un o'r dulliau ar gyfer helpu i hyrwyddo hynny yw edrych ar yr amryw fuddiannau sy'n gysylltiedig â byw mewn amgylchedd mwy gwyrdd. Mae bywydau pobl sydd â chysylltiad â byd natur â llai o gostau o ran eu hiechyd, felly byddwn yn arbed arian cyllidebau eraill os byddwn yn cadw ein lleoedd yn wyrdd, yn ogystal â gwneud yr hyn sydd ei angen i barchu byd natur.

**Ymateb (LG**) Soniodd Richard, yn fyr yn ei gyflwyniad, am gynllunio ac rwy'n gwybod bod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yma yng Nghymru, ond mae angen i rywfaint o hwn or-gyffwrdd â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol hefyd.

**Cwestiwn:** David Clubb, Afallen: Rydych wedi trafod a chynnig ateb i'r heriau sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol, ac mae dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wneud hynny, a'r syniad o rannu costau neu fuddiannau, sy'n rhywbeth rydw i hefyd wedi pendroni yn ei gylch. Gadewch i ni gymryd prosiect ynni fel enghraifft. Dyweder bod gennych brosiect hydro nad yw, ar bapur, yn gwneud fawr o synnwyr economaidd, felly sut mae mesur buddion fel teithio llesol, llwybrau beicio da sy'n hawdd ei gyrraedd, a meddygon teulu lleol a fydd yn annog pobl i fwynhau buddion o'r fath? Os ydych , dyweder, mewn cyfarfod yn dweud wrth rywun y bydd yn costio £5,000 i chi, ond rydyn ni'n gofyn i'r bwrdd iechyd am £2,000, i awdurdodau lleol am £1,000, ac i'r gwasanaeth tân ac achub a'r heddlu am £500 yr un, sut ydyn ni'n datblygu prosiectau sydd, mewn rhyw ffordd, yn mesur y buddion hyn? Oherwydd heb hynny

mae'n anobeithiol. Ni ellir sicrhau bod rhywun yn cymeradwyo cyllideb ar gyfer rhywbeth nad ydyn nhw'n mynd i feddu arno mewn rhyw ffordd.

**Ymateb (PA**) Rwyf o'r farn, os ydym yn ei wreiddio yn y dystiolaeth sy'n seiliedig ar enghreifftiau go iawn lle mae sefyllfaoedd wedi cael eu newid, ac o ystyried yr amryw fuddion, ac yna'n monitro hynny dros amser, mae gennych chi sylfaen dystiolaeth, ond nid economegydd ydw i.

**Ymateb (RM**) Gallem ofyn i amrywiaeth o awdurdodau gyfrannu, fel y gwasanaethau tân ac achub, ond mae'n anodd iawn gwneud iddynt dalu am hynny, felly dyna fyddai rôl asiantaeth ganolog sy'n berchen ar y cyrff allanol. Rydyn ni yma i dderbyn cyllid gan y llywodraeth er mwyn gallu ariannu, dyweder tua 30 y cant o brosiect nad oes modd ei ariannu mewn ffordd arall. I ateb y cwestiwn am esmwytho meintiol gwyrdd a ph'un a oes rôl ar ei gyfer, oes, rwy'n credu y gallai fod rôl. Ond yr ochr arall i hyn yw, bod angen bod yn glir nad yw'r dewisiadau amgen sydd eisoes yn bodoli yn hyfyw ychwaith. Mae'r gwaith rydym yn ei wneud ar gyfrifyddu hinsawdd yn waith cyfrifyddu sector preifat. Hyd y gwn i, maen nhw'n ceisio rhoi cost y newid yn yr hinsawdd ar y fantolen. Mae fy nghynnig i'n rhywbeth sy'n ceisio bod yn gynaliadwy ar draws gwaith cyfrifyddu ac sy'n dweud bod yn rhaid i gwmni gyfrifo faint y bydd yn ei gostio i ddod yn niwtral o ran dyled ac o ran carbon ar gwmpasau un, dau a thri. Yna mae'n rhaid i ni gyfrifo'r canlyniadau, ac yna, ar ôl nodi'r gost ar gyfer hynny, mae'n rhaid rhoi'r cwbl ar y fantolen ymlaen llaw. Mae nodi gostyngiadau ar gyfer popeth fel hyn yn gwyrdoi'r rhesymeg sy'n sail i gyfrifeg yn gyfan gwbl, oherwydd mae cyfrifeg wedi'i seilio ar nodi gostyngiadau ar gyfer y dyfodol. Mae llawer o gwmnïau eisoes yn fethdalwyr o ran carbon, ac ni fydd ganddynt yr adnoddau sydd eu hangen i drosi. Byddai'n ailddyrannu cyfalaf ar raddfa enfawr ac yn codi cwestiynau ynglŷn â pham rydym yn rhoi arian mewn meysydd olew pan ddylai'r arian hwn fod yn mynd tuag at ynni adnewyddadwy, oherwydd bydd y cwmnïau hynny'n gallu goroesi ond ni fydd y rhai olew yn gallu goroesi.
Bydd yn her fawr. Rydw i wedi bod yn annog fy nghronfeydd pensiwn a buddsoddwyr sefydliadol i fynd i'r afael â hyn o ddifri. Oherwydd nid yw rheolwyr cronfeydd pensiynau a phortffolios preifat yn sylweddoli eto faint o effaith ddinistriol y bydd y newid yn yr hinsawdd yn ei chael arnynt. Felly un ffordd o'i gwneud hi'n haws sicrhau cydbwysedd rhwng y cyllidebau, yw drwy ddangos bod cydbwysedd rhwng unrhyw gyllideb arall. Felly mae buddsoddi yn y dewis arall yn benderfyniad rhesymegol oherwydd mae'r ymddygiad presennol, sy'n cael ei ystyried yn rhesymegol, yn fwy afresymol nag unrhyw ddewis arall, felly rydw i wedi cynnig dull o gyfrif am hynny. Pryd bydd hyn yn digwydd? Wn i ddim.

**Ymateb (PA)** <u>Byddai'n well p</u>e bai gennym system lle gallai hydro sy'n eiddo i'r gymuned werthu'r trydan yn ardal yr is-orsaf i bawb sy'n byw o'i gwmpas am 10c yr uned, yn lle ei werthu i'r grid am 5c. Byddai'r bobl o'i gwmpas yn cael trydan rhatach ac yn cael cyfran well. Byddent yn parhau i dalu rhywbeth am y grid lleol, ac yna byddai'n fwy hyfyw, ac mae hwn yn fodel sydd eisoes yn gweithio.

***Cwestiwn:*** *David Clubb, Afallen* - Ie, ond nid dyna'r darlun llawn ac mewn rhai amgylchiadau ni fyddai hynny'n bosibl, neu byddai'n rhy anodd ac mae yna fuddion ehangach i'w nodi o hyd.

**Ymateb (PA)** Ond gyda chyfrifyddu cost wedi'i lefelu, lle gydag unrhyw ddewis ynni, rydych chi'n cynnwys y goblygiadau iechyd a all fod yn negyddol ac yn gadarnhaol ar gyfer costau addasu yn y dyfodol, rydym yn wir yn costio tanwyddau ffosil yn deg.

**Ymateb (LG)** Siawns mai rôl i Lywodraeth Cymru yw hon.

**Cwestiwn:** *Rob James, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr* - Hyd yn oed os ydych chi'n cael yr holl gyfrifon yn iawn a'r cyllid yn iawn, ble mae'r sgiliau? Mae bwlch sgiliau enfawr oherwydd rydyn ni'n dal i ddysgu sut i osod boeleri fel y prif beth. Mae amser addysg yn cael ei fyrhau ac yn dechrau ar sylfaen is. Yna mae gennych chi grefftwyr sy'n buddsoddi ar gyfer diweddaru eu hunain o ran tueddiadau, ac maen nhw'n dod i gwblhau pa bynnag gwrs maen nhw'n ei wneud, ond mae'r gofynion yn newid. Ar un amser roedd gwresogi fesul parth mewn cartref yn bwysig, ond gan fod gwahanol ddatblygwyr tai a phobl eraill yn colli elw, cafodd ei ollwng. Mae casglu dŵr wedi cael ei roi o'r neilltu am y tro.
Maen nhw nawr yn dweud bod gennym 10 mlynedd bellach i wneud hyn i gyd, ond hyd yn oed os oes gennych chi'r arian does gennych chi ddim y seilwaith na'r sgiliau.

**Ymateb (PA)** Mae sgiliau'n bwysig iawn oherwydd ein bod ni'n hyfforddi miloedd o bobl i feddu ar sgiliau gosod systemau solar ac roedd busnesau'n dechrau cael eu creu, ond cafodd y cymhellion a oedd i gael eu ffurfio eu torri'n gyflymach nag yr oedd unrhyw un yn ei ddisgwyl, ac o ganlyniad bu'n rhaid i'r busnesau gau. Os ydych yn cymharu'r meddylfryd hwnnw â'r Almaen, lle na ellir eu newid - hyd yn oed pe bai'r llywodraeth yn eu newid, byddai'n annerbyniol yn ddiwylliannol. Mae angen y meddylfryd hwnnw arnom fan hyn; mae angen trin y sefyllfa fel argyfwng a sicrhau bod y gymdeithas yn ei gefnogi.

**Cwestiwn:** *Tony Cooke, Ynni Cymunedol Caerdydd* - Cyfeiriwyd at yr ymgynghoriad Rhan L yn gynharach, a'r ffaith mai'r rheswm am yr oedi o bum mlynedd yw'r diffyg sgiliau a chadwyni cyflenwi, a'r ffaith bod adeiladwyr tai mawr yn dweud er y byddant wedi gwybod am yr her am 19 mlynedd erbyn 2025, nid ydynt wedi paratoi, felly nid ydynt yn gallu ei wneud. Ni allaf weld bod gwahaniaeth o ran sgiliau sy'n ofynnol rhwng gosod ffenestr wydr driphlyg a gosod un gwydr dwbl gan fod y sgiliau, y deunyddiau a'r prosesau yr un peth, felly mae cynnydd bach mewn cynhyrchiant yn bosibl. Ni allaf feddwl am reswm i gyfiawnhau gohirio hynny tan 2025 - sut y gellid cyfiawnhau hyn?

**Ymateb (PA)** Rwy'n credu mai mabwysiadu meddylfryd 'atebion brys' sydd ei angen. Un o'r mentrau cydweithredol mwyaf ysbrydoledig sy'n gweithio gyda ni yw Rapid Transition Alliance sy'n casglu astudiaethau achos hanesyddol go iawn o bob cwr o'r byd, lle mae trawsnewidiadau cyflym wedi'u cyflawni'n gynt nag y gallai unrhyw un ei ddychmygu. Er enghraifft, rheilffyrdd, paratoi ar gyfer yr Ail Ryfel Byd. ac ymdrin â'r argyfwng bancio. Mae tystiolaeth sy'n dangos y gallwn wneud hyn i'w weld mewn hanes. Mae Zero Carbon Britain yn dangos bod gennym yr holl offer a thechnolegau, dim ond cael yr ewyllys i'w gyflawni a

system wleidyddol sy'n adeiladu consensws cymdeithasol i'w gefnogi sydd ei angen. Ond nid yw newidiadau diwylliannol yn digwydd mewn un llinell, mae'n rhaid gwthio'n barhaus fel y gwelsom dros y blynyddoedd diwethaf gyda materion hil, dosbarth a rhyw. Mae cael gweledigaeth gadarnhaol, fel y gallwn ddangos yn glir bod gennym well ffordd o fyw a gweledigaeth well ar gyfer y Gymru yr ydym ei heisiau, yn bwysig a rhaid inni ei chadw'n agos at ein calonnau.

**Cloi**

Diolchodd y trefnydd i'r cyflwynwyr a phawb a oedd yn bresennol, a gofynnodd am awgrymiadau ar gyfer pynciau trafod y dyfodol.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf** 16 Mehefin 2020.